# Llamu Ymlaen – Rheoli Asedau'n Strategol – Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Blwyddyn archwilio: 2021-22

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 2992A2022

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

# Cynnwys

Mae'r Cyngor yn gallu dangos ei fod yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn rhai o'i gynlluniau asedau, ond mae angen iddo sicrhau bod y dull hwn yn tanategu ei reolaeth strategol ar asedau yn fwy eang, ac yn cael ei gefnogi gan drefniadau adolygu a monitro cadarn.


Adroddiad cryno

Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham 4

Yr hyn a ganfuom 5

Argymhellion 6

Adroddiad manwl

Mae'r Cyngor yn gallu dangos ei fod yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn rhai o'i gynlluniau asedau, ond mae angen iddo sicrhau bod y dull hwn yn tanategu ei reolaeth strategol ar asedau yn fwy eang, ac yn cael ei gefnogi gan drefniadau adolygu a monitro cadarn 7

Ceir rhai enghreifftiau cadarnhaol o'r Cyngor yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn rhai o'i gynlluniau asedau, ond mae angen i'r Cyngor gryfhau ei drefniadau cynllunio hirdymor a sicrhau bod ei ddull o reoli ei asedau'n cael ei integreiddio'n llawn â strategaethau eraill 7

Mae'r Cyngor yn addasu ac yn rhesymoli ei ystâd, ond yn cydnabod bod angen iddo wella'i wybodaeth am ei asedau a'u cyflwr 10

Mae angen i'r Cyngor sicrhau bod ganddo brosesau cadarn i adolygu a monitro'i ddull o reoli ei asedau 11

# Adroddiad cryno

## Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

1 Fe wnaethom adolygu trefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli ei asedau gyda phrif ffocws ar swyddfeydd ac adeiladau y mae'r Cyngor yn eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau ar gyfer ei drigolion. Fe wnaethom fwrw golwg ar y modd y mae'r Cyngor yn cynllunio'n strategol ar gyfer defnyddio'i asedau, sut y mae'n monitro'r defnydd o'i asedau a sut y mae'n adolygu ac yn gwerthuso effeithiolrwydd ei drefniadau.

2 Fe gyflawnom ni'r adolygiad hwn wrth i'r byd symud yn ei flaen, gan ddefnyddio'r profiadau o bandemig byd-eang COVID-19, i fwrw golwg ar y modd y mae cynghorau'n cryfhau eu gallu i drawsnewid, addasu a pharhau i ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys y rhai a ddarperir mewn partneriaeth gyda rhanddeiliaid allweddol a chymunedau.

3 Rydym wedi gwneud y prosiect hwn ym mhob cyngor fel rhan o'n cynlluniau archwilio ar gyfer 2021 i helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol dan adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) ac adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Roedd yr adolygiad yn ceisio:

- cael sicrwydd bod cynghorau'n rhoi trefniadau ar waith i drawsnewid, addasu a pharhau i ddarparu gwasanaethau;
- egluro'r camau gweithredu y mae cynghorau'n eu cymryd yn unigol ac ar y cyd i gryfhau eu trefniadau; ac
- ysbrydoli cynghorau a sefydliadau eraill i gryfhau eu trefniadau ymhellach trwy gofnodi a rhannu enghreifftiau o arfer nodedig a gwersi a gwneud argymhellion priodol

**Arddangosyn 1: sylfaen asedau**

Mae'r tabl isod yn nodi agweddau allweddol ar sylfaen asedau'r Cyngor yn 2021.

| Math o ased | Nifer |
|---|---|
| Swyddfeydd Corfforaethol Craidd | – 2 |
| Ysgolion | – 29[1] |

[1] Mae 22 o ysgolion cynradd a phedair ysgol uwchradd, ac un ysgol arbennig a dwy uned cyfeirio disgyblion. Ac mae dwy ysgol flaenorol sy'n wag.

| Math o ased | Nifer |
|---|---|
| Canolfannau hamdden | – 1 |
| Llyfrgelloedd | – 3 |
| Canolfannau Cymunedol | – 4 |
| Cartrefi preswyl | – 4[2] |
| Canolfannau ailgylchu | – 2 |

Ffynhonnell: Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

4 Mae Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol drafft y Cyngor yn nodi mai oddeutu £167.6 miliwn yw cyfanswm gwerth asedau'r Cyngor.

5 Fe gynhaliom ni'r adolygiad yn ystod y cyfnod rhwng mis Hydref 2021 a mis Ionawr 2022.

# Yr hyn a ganfuom

6 Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn: A yw dull strategol y Cyngor o reoli ei asedau'n cryfhau ei allu i drawsnewid, addasu a pharhau i ddarparu ei wasanaethau yn y tymor byr a hwy?

7 Ar y cyfan, canfuom fod y Cyngor yn gallu dangos ei fod yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn rhai o'i gynlluniau asedau, ond mae angen iddo sicrhau bod y dull hwn yn tanategu ei reolaeth strategol ar asedau yn fwy eang, ac yn cael ei gefnogi gan drefniadau adolygu a monitro cadarn. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- ceir rhai enghreifftiau cadarnhaol o'r Cyngor yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn rhai o'i gynlluniau asedau, ond mae angen i'r Cyngor gryfhau ei drefniadau cynllunio hirdymor a sicrhau bod ei ddull o reoli ei asedau'n cael ei integreiddio'n llawn â strategaethau eraill;
- mae'r Cyngor yn addasu ac yn rhesymoli ei ystâd, ond yn cydnabod bod angen iddo wella'i wybodaeth am ei asedau a'u cyflwr; ac

[2] A chanolfan seibiant flaenorol sy'n wag ar hyn o bryd.

- mae angen i'r Cyngor sicrhau bod ganddo brosesau cadarn i adolygu a monitro'i ddull o reoli ei asedau.

# Argymhellion

**Arddangosyn 2: argymhelliad**

Mae'r tabl isod yn nodi'r argymhellion yr ydym wedi'u hadnabod yn dilyn yr adolygiad hwn.

| **Argymhellion** | |
|---|---|
| A1 | Mae angen i'r Cyngor sicrhau bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy'n llywio'i ddull o reoli ei holl asedau. Er enghraifft:<br>• dylai'r Cyngor ddatblygu dull tymor hwy o reoli ei asedau;<br>• bydd angen i'r Cyngor integreiddio ei strategaeth ar gyfer y gweithlu a'i strategaeth ddigidol yn llawn â'i gynlluniau tymor hwy ar gyfer ei asedau; ac<br>• mae angen i'r Cyngor gynnwys defnyddwyr gwasanaethau yn ei gynlluniau pan fo'r cynlluniau hynny'n effeithio arnynt. |
| A2 | Mae angen i'r Cyngor ddiweddaru ei bolisïau sy'n gysylltiedig â rheoli asedau. |
| A3 | Dylai'r Cyngor wella goruchwyliaeth gorfforaethol ar asedau, eu cyflwr a chydymffurfiaeth statudol â rheolau ar gyfer adeiladau. |
| A4 | Dylai'r Cyngor ddatblygu cylch gorchwyl ar gyfer y Bwrdd Rheoli Asedau a sicrhau bod camau gweithredu'r Bwrdd yn cael eu cofnodi'n briodol. |

# Adroddiad manwl

## Mae'r Cyngor yn gallu dangos ei fod yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn rhai o'i gynlluniau asedau, ond mae angen iddo sicrhau bod y dull hwn yn tanategu ei ddull strategol o gynllunio'i asedau yn fwy eang, ac yn cael ei gefnogi gan drefniadau adolygu a monitro cadarn

### Ceir rhai enghreifftiau cadarnhaol o'r Cyngor yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn rhai o'i gynlluniau asedau, ond mae angen i'r Cyngor gryfhau ei drefniadau cynllunio hirdymor a sicrhau bod ei ddull o reoli ei asedau'n cael ei integreiddio'n llawn â strategaethau eraill

#### Pam ei bod yn bwysig pennu gweledigaeth glir

8 Mae strategaeth glir ar gyfer rheoli asedau a chynlluniau cyflawni wedi'u datblygu'n dda'n bwysig i adnabod y defnydd bwriadedig o asedau dros y tymor byr a hwy; y cyllid sydd ar gael i gynnal a datblygu asedau, yn ogystal â lefel ddisgwyliedig y galw am wasanaethau a chost eu darparu yn y dyfodol. Mae hefyd yn bwysig i adnabod sut y mae'r strategaeth rheoli asedau'n cyd-fynd ac wedi'i hintegreiddio â strategaethau perthnasol eraill, gan gynnwys gweithio ystwyth, y gweithlu, digidol a lleihau carbon. Gall dysgu o'r newidiadau a achoswyd gan bandemig byd-eang COVID-19 helpu cynghorau i gryfhau eu gallu i drawsnewid, addasu a pharhau i ddarparu gwasanaethau.

#### Pam fod yr egwyddor datblygu cynaliadwy'n bwysig

9 Pan ddechreuom ni ein gwaith archwilio dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf), roeddem yn cydnabod y byddai'n cymryd amser i gyrff cyhoeddus wreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Fodd bynnag, fe wnaethom hefyd nodi ein disgwyliad dros y tymor canolig y byddai cyrff cyhoeddus yn gallu dangos sut y mae'r Ddeddf yn trefnu'r hyn y maent yn ei wneud. Mae bellach bron yn saith mlynedd ers pasio'r Ddeddf ac rydym bellach yn yr ail gyfnod adrodd ar gyfer y Ddeddf. Felly, byddem yn disgwyl yn awr i gyrff cyhoeddus fod yn gallu dangos bod y Ddeddf yn rhan annatod o'u ffordd o feddwl a'i bod wir yn trefnu'r hyn y maent yn ei wneud.

10 O dan y Ddeddf, rhaid i gynghorau gyflawni datblygu cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae gwneud rhywbeth yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy'n golygu bod rhaid i'r Cyngor weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau. I weithredu yn y modd hwnnw, rhaid i'r Cyngor ystyried y pum ffordd o weithio: Hirdymor, Integreiddio, Cynnwys, Cydweithio ac Atal. Mae canllawiau statudol ynghylch y Ddeddf[3] yn nodi'r saith gweithgaredd sefydliadol craidd y mae'n hanfodol bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy'n cael ei chymhwyso iddynt. Mae asedau'n un o'r gweithgareddau sefydliadol craidd hynny.

## Yr hyn a ganfuom

11 Mae'r Cyngor yn drafftio Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol (CAMP) ar gyfer y cyfnod 2021-2026. Mae'n cynnwys datganiad o weledigaeth bod y 'portffolio asedau'n cyd-fynd â blaenoriaethau corfforaethol a gofynion gwasanaethau, lle gwneir buddsoddiad priodol mewn prosiectau cyfalaf a lle caiff y portffolio ei gynnal yn effeithiol, lle mae'n addas ar gyfer y diben ac yn ateb gofynion iechyd a diogelwch'.

12 Fodd bynnag, mae rhai o atodiadau'r Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol drafft, megis y strategaeth cynnal a chadw, wedi dyddio ac mae angen eu diweddaru. Mae cynlluniau rheoli asedau gwasanaethau'r Cyngor wedi dyddio neu wrthi'n cael eu drafftio hefyd.

13 Mae'r Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol drafft yn cynnwys ymrwymiad eglur i ddatgarboneiddio, ac yn cynnwys camau gweithredu sy'n ymwneud â datgarboneiddio. Mae'r Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol drafft yn nodi bod y Cyngor yn gweithio gydag arbenigwr ynni i helpu i baratoi cynllun a thrywydd a fydd yn galluogi'r Cyngor i chwarae ei ran yn ymdrechion sector cyhoeddus Cymru i ddod yn garbon niwtral erbyn 2030. Bydd angen i'r Cyngor integreiddio'r cynllun a thrywydd hwnnw'n llawn â'i gynlluniau ar gyfer ei asedau.

14 Canfuom rai enghreifftiau cadarnhaol lle mae'r Cyngor wedi rhoi sylw ystyrlon i'r egwyddor datblygu cynaliadwy mewn peth o'i waith cynllunio ar gyfer rheoli asedau. Er enghraifft, mae'r Cyngor wedi myfyrio ynghylch tueddiadau tymor hwy ac wedi canolbwyntio ar y manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yn ei ddull o ddatblygu Cynllun Cyfarthfa 2020-2040 a'i Weledigaeth Economaidd 2020-2035. Ar y cyfan, ni chanfuom fod yr egwyddor datblygu cynaliadwy'n trefnu dull strategol y Cyngor o gynllunio'i asedau'n fwy eang. Er ei fod yn beth cadarnhaol bod y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol yn tanlinellu ymrwymiad y Cyngor i ddatgarboneiddio, ac yn cyfeirio at y pum ffordd o weithio ac amcanion llesiant y Cyngor, nid yw'n nodi'n benodol sut y bydd yr egwyddor datblygu cynaliadwy'n goleuo dull y Cyngor o reoli ei asedau. Hefyd, nid yw'n glir sut y bydd

[3] Llywodraeth Cymru, Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol, Canllawiau Statudol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol yn rhoi cymorth i gyflawni Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella'r Cyngor. At ei gilydd, canfuom fod ffocws y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol drafft yn fwy gweithredol na strategol.

15 Dylai'r Cyngor achub ar y cyfle i wneud yr egwyddor datblygu cynaliadwy'n ganolog i'w ystyriaethau a chynlluniau ar gyfer asedau, ac unrhyw bolisïau ategol, megis ei bolisi gwarediadau a chynlluniau rheoli asedau gwasanaethau.

16 Mae angen i'r Cyngor sicrhau ei fod yn ystyried y pum ffordd o weithio wrth ddatblygu ei asedau. Er enghraifft mae angen iddo:

- fabwysiadu dull tymor hwy o gynllunio'i asedau. Mae canllawiau statudol y Ddeddf yn nodi, 'disgwylir ... y bydd cyrff cyhoeddus a byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn edrych o leiaf 10 mlynedd ymlaen, er mai arfer gorau fyddai edrych 25 mlynedd ymlaen. Mewn rhai cyd-destunau bydd yn hwy na hyn'. Felly, mae angen i'r Cyngor ystyried tueddiadau tymor hwy a'r galw am wasanaethau yn y dyfodol a allai effeithio ar ddarparu gwasanaethau a defnydd effeithlon o'i asedau adeiledig.
- sicrhau bod ei gynlluniau'n cael eu hintegreiddio â chynlluniau a strategaethau eraill wrth iddynt gael eu datblygu. Mae'r Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol drafft yn rhestru gweithio ystwyth fel un o'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer y Cyngor ond nid yw'n nodi beth allai hynny ei olygu ar gyfer asedau'r Cyngor. Nid oes gan y Cyngor gynllun strategol ar gyfer y gweithlu ac mae ei strategaeth ddigidol wrthi'n cael ei drafftio. Bydd angen i'r Cyngor wneud yr egwyddor datblygu cynaliadwy'n ganolog i'w ddull cynllunio strategol a'i defnyddio i lywio'i gynlluniau, a fyddai'n ei alluogi i integreiddio'i gynlluniau tymor hwy'n llawn yn y meysydd hynny â'i gynlluniau asedau a sicrhau aliniad ar draws y sefydliad.
- adeiladu ar berthnasoedd â sefydliadau eraill, gan gynnwys y rhai a gafodd eu meithrin yn ystod y pandemig ac archwilio cyfleoedd i gydweithio mewn perthynas â'i asedau.
- cryfhau ei ddull o gynnwys defnyddwyr gwasanaethau yn ei ystyriaethau i ddyfodol ei asedau. Er enghraifft, fe gaeodd y Cyngor ei swyddfeydd dinesig pan oedd y pandemig ar ei anterth, felly nid oedd defnyddwyr gwasanaethau'n gallu cael cyswllt wyneb-yn-wyneb â staff y dderbynfa ac mae'r rhain fwyaf o gyswllt wedi bod ar-lein neu dros y ffôn. Bydd angen i'r Cyngor ystyried sut y mae ar ei ddefnyddwyr eisiau cysylltu â'r Cyngor a chael mynediad at wasanaethau yn awr ac yn y dyfodol er mwyn goleuo'i gynlluniau ar gyfer ei ystâd.

## Mae'r Cyngor yn addasu ac yn rhesymoli ei ystâd, ond yn cydnabod bod angen iddo wella'i wybodaeth am ei asedau a'u cyflwr

### Pam ei bod yn bwysig bod y broses o gyflawni newidiadau arfaethedig i asedau'n cael ei rheoli mewn modd effeithiol

17 Mae'n bwysig bod cynlluniau rheoli asedau'n cyflawni'r deilliannau bwriadedig yn effeithlon ac yn effeithiol fel bod gwariant gwirioneddol mor agos â phosibl at y lefelau a gynlluniwyd a bod cynghorau'n cyflawni eu dyletswyddau statudol. Gall cydweithio effeithiol gyda sefydliadau eraill a chynnwys cymunedau wrth ystyried eu hanghenion wella'r gwasanaethau a ddarperir ar gyfer trigolion. Lle nad yw cynghorau'n meddu ar yr amrywiaeth o sgiliau, gwybodaeth ac arbenigedd i fynd ati'n effeithiol i reoli asedau'n barhaus a chyflawni newidiadau strategol, gall hyn leihau'r gallu i gyflawni'r deilliannau bwriadedig.

### Yr hyn a ganfuom:

- gan dynnu ar ei brofiad o weithio trwy'r pandemig, mae'r Cyngor wedi dweud wrthym ei fod yn bwriadu rhoi model gweithio cyfunol ar waith. Cymysgedd o weithio gartref ac mewn swyddfa fydd hwn.
- o dan ei fodel cyfunol, mae'r Cyngor yn disgwyl y bydd lle i'r rhan fwyaf o staff allu gweithio yn y swyddfeydd dinesig. Bydd hyn yn rhyddhau swyddfeydd ym mhrif safle arall y Cyngor, Uned 5. Mae'r Cyngor yn bwriadu gosod y lle a gaiff ei greu yn Uned 5, gan greu incwm ychwanegol i'r Cyngor. Mae'r Cyngor eisoes wedi gosod rhan o Uned 5 i Swyddfa'r Crwner.
- mae gan y Cyngor gofrestr asedau ganolog, sy'n hwyluso dealltwriaeth gorfforaethol am ei ystâd. Caiff yr ôl-groniad o gostau cynnal a chadw sydd gan y Cyngor eu nodi yn y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol, ond mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo wella'i wybodaeth gyfredol am ei asedau a'u cyflwr i oleuo'i waith cynllunio'n well. Yn 2021 rhoddodd y Cyngor gomisiwn i drydydd parti gynnal arolygon o'i adeiladau ar raglen dreigl dros bum mlynedd.
- wrth i ddealltwriaeth y Cyngor am gyflwr ei ystâd a'r costau cysylltiedig wella, byddem yn disgwyl gweld hyn yn cael ei adlewyrchu yng ngwaith cynllunio ariannol ac yng nghynlluniau strategol y Cyngor yn y dyfodol.
- ceir rhai enghreifftiau o'r Cyngor yn gweithio gydag eraill mewn perthynas â'i asedau. Mae'r Cyngor yn rhan o grŵp rheoli asedau Cwm Taf Morgannwg sy'n cwrdd bob chwe mis, ac mae'r Cyngor hefyd wedi cyflawni nifer o brosesau trosglwyddo asedau cymunedol.
- hefyd, roedd adroddiad Archwilio Mewnol beirniadol ym mis Rhagfyr 2021 ar y cynlluniau a chyfundrefnau ar gyfer arolygiadau cynnal a chadw eiddo. Rhoddodd y tîm Archwilio Mewnol farn anfoddhaol ar y system rheolaeth

fewnol. Rhoddodd yr asesiad sgôr 'gwael' i'r modd y cydymffurfir â'r amgylchedd rheolaeth fewnol a 'gwael' oedd y casgliad ar y cyfan ynglŷn â'r amgylchedd rheolaeth fewnol. Mae'r Cyngor wedi ailstrwythuro swyddogaethau ei wasanaethau Ystadau ac Eiddo fel eu bod bellach yn eistedd o fewn Adfywio Economaidd. Fodd bynnag, mae'r ffaith bod nifer o bolisïau sy'n ymwneud â rheoli asedau wedi dyddio ynghyd â'r farn anffafriol gan y tîm Archwilio Mewnol yn awgrymu bod angen i'r Cyngor ei sicrhau ei hun bod digon o gapasiti ac adnoddau o fewn y tîm i reoli asedau'r Cyngor.

## Mae angen i'r Cyngor sicrhau bod ganddo brosesau cadarn i adolygu a monitro'i ddull o reoli ei asedau

### Pam ei bod yn bwysig mynd ati'n effeithiol i adolygu'r modd y cyflawnir newidiadau arfaethedig i asedau

18 Dylai cynghorau ddefnyddio data i fonitro pa un a ydynt yn cyflawni eu deilliannau bwriadedig yn effeithiol ac yn effeithlon dros y tymor byr a hwy. Mae defnyddio data meincnodi'n gallu darparu mewnwelediad defnyddiol i berfformiad unigol cynghorau ac yn gallu adnabod cyfleoedd i ddysgu oddi wrth sefydliadau eraill.

### Yr hyn a ganfuom:

- mae'r Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol drafft 2021-2026 yn cynnwys cynllun gweithredu ac mae'n eglur pwy yw perchennog/perchnogion pob cam gweithredu. Defnyddir cod lliwiau ar gyfer y camau gweithredu yn ôl y flaenoriaeth a roddir iddynt gyda choch yn dynodi'r flaenoriaeth uchaf, a chymysgedd o faterion strategol a phenodol ydynt. Fodd bynnag, nid yw'r cynllun gweithredu'n cynnwys graddfeydd amser a fyddai'n helpu i fonitro cynnydd yn erbyn y camau gweithredu.
- un o'r meysydd blaenoriaeth yn y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol drafft yw gweithio ystwyth ond nid yw'n glir pa gamau gweithredu penodol fydd yn ofynnol i symud hynny yn ei flaen.
- mae gan y Cyngor Fwrdd Rheoli Asedau gyda chynrychiolaeth o blith uwch swyddogion, cynrychiolaeth wleidyddol a chynrychiolaeth o blith swyddogion ar draws y Cyngor. Mae rôl y grŵp wedi'i fwriadu i fod yn strategol, ond gan nad oes cylch gorchwyl na nodiadau o gyfarfodydd ar gyfer y grŵp yma, nid ydym wedi gallu penderfynu a yw'r Bwrdd yn cael effaith neu'n cyflawni ei rôl fel a fwriadwyd.
- y bwriad yw y bydd y cynllun gweithredu sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol drafft 2021-2026 yn cael ei fonitro gan y swyddogaeth graffu, y Cabinet a'r Bwrdd Rheoli Asedau.
- nid yw'r Cyngor yn meincnodi ei berfformiad yn erbyn perfformiad awdurdodau lleol eraill ar hyn o bryd. Fel rhan o'n harchwiliad o asesiadau o

berfformiad cynghorau ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21, fe wnaethom nodi bod llai o gyfeirio at wybodaeth gymharol am berfformiad, er ein bod yn cydnabod bod y pandemig wedi arwain at atal rhai prosesau casglu data cenedlaethol. Bydd y gallu i gymharu data a pherfformiad â sefydliadau eraill yn parhau i fod yn elfen bwysig o drefniadau i sicrhau gwerth am arian. Bydd hyn yn her i gynghorau ei ystyried, yn enwedig wrth iddynt barhau i weithredu'r gofynion sy'n gysylltiedig â hunanasesu a nodir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

- fe ofynnom ni am y cyfraddau cwblhau ar y cyfan ar gyfer data cydymffurfio â rheoliadau iechyd a diogelwch adeiladau, megis profion trydan a nwy, gan y Cyngor fel rhan o'n gwaith Asesiad Sicrwydd a Risg (ASR). Nid oedd yr wybodaeth hon ar gael yn rhwydd fel y byddem wedi'i ddisgwyl, er ei bod wedi cael ei darparu yn y pen draw. Nid oedd y Cyngor yn gallu darparu ffigyrau cywir cyn 2020-21, sef y flwyddyn y newidiodd i fersiwn wedi'i diweddaru o'r System Gwybodaeth Reoli Asesiadau Risg (RAMIS). Nid yw'r Cyngor yn gwneud gwaith rheolaidd i fonitro ac adrodd ar gyfraddau cwblhau cyffredinol ar gyfer ei ddata cydymffurfiaeth statudol â rheolau adeiladau. Mae angen i'r Cyngor sicrhau bod ganddo drefniadau llywodraethu cadarn fel ei fod yn gwybod yn glir i ba raddau y ceir bylchau yn ei gyfraddau ymlynu wrth gydymffurfiaeth â rheolau adeiladau a beth yw'r cyfeiriad teithio ar y cyfan ar gyfer cydymffurfiaeth o'r fath.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.